Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Achosion Cyfraith Gyhoeddus a'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol

Mawrth 2012

## Cyflwyniad

Mae'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol wedi amlinellu **diwygiadau sylweddol i'r system cyfiawnder teuluol** yng Nghymru a Lloegr. Comisiynwyd yr Adolygiad gan Lywodraethau'r DU a Chymru fel ymateb i **gynnydd yn nifer a hyd achosion cyfraith teuluol** yn y llysoedd a'r **effaith negyddol** ar deuluoedd a phlant. Cynhyrchwyd adroddiad interim[1] ac adroddiad terfynol yn 2011[2]. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2012[3] yr un pryd â Llywodraeth y DU a gyhoeddodd adroddiad ar wahân yn ymateb i **134 o argymhellion** yn yr Adolygiad, gan **dderbyn bron bob un ohonynt**[4].

1. Mae achosion **cyfraith gyhoeddus** yn ymwneud ag unrhyw achos o **ddiogelu plant** ac sy'n **ymwneud â'r awdurdod lleol**
2. Mae achosion **cyfraith breifat** yn ymwneud ag unrhyw achos o **chwalfa deuluol** pan **na all y rhieni sy'n gwahanu gytuno** ar sut y dylid magu'u plant.

Mae'r Hysbysiad Hwylus hwn yn crynhoi'r hyn sydd gan yr Adolygiad i'w ddweud am y **gyfraith gyhoeddus, ymateb y Llywodraeth** a'r goblygiadau o ran **materion sydd wedi'u datganoli a materion sydd heb eu datganoli** sy'n effeithio ar blant yng Nghymru. Mae hefyd yn amlinellu **beirniadaethau cyrff allweddol.**

Mae Hysbysiad Hwylus wedi'i gynhyrchu hefyd am achosion Cyfraith Breifat a'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol.

## Yr angen am newid

Mae'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn nodi bod **achosion yn rhy hir** - ar gyfartaledd, mae achosion gofal a goruchwylio'n ymwneud â diogelu plant yn cymryd **56 wythnos**. Mae llawer o achosion yn **llawer hirach**. Mae'r Adolygiad yn adleisio pryderon am y modd y mae **oedi'n niweidio plant sy'n agored i niwed.**

---

[1] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ***adroddiad interim ar yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol***, Mawrth 2011, [fel ar 29 Chwefror 2012]
[2] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ***adroddiad terfynol yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol***, Tachwedd 2011 [fel ar 29 Chwefror 2012]
[3] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol***, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 6 Chwefror 2012 [fel ar 29 Chwefror 2012]
[4] Yr Adran Addysg, ***Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol: system sy'n rhoi plant a theuluoedd yn ganolog,*** Chwefror 2012 [fel ar 2 Mawrth 2012]

Mae'r Adolygiad yn sôn am y nifer fawr o gyrff sy'n rhan o'r system cyfiawnder teuluol, sydd â strwythurau **cymhleth sy'n gorgyffwrdd.** Mae'n amlygu **diffyg cydweithrediad a chydgynllunio** rhwng y gwahanol rannau o'r system ynghyd ag ymdeimlad o **ddrwgdybiaeth tuag at weithwyr cymdeithasol** a **rhagfarn gyffredinol yn erbyn gofal fel dewis da** i blant. O ganlyniad, mae'r llysoedd yn **craffu ar gynlluniau gofal** fwyfwy i benderfynu a'i gorchym gofal yw'r dewis gofalu ar gyfer y plentyn, yn lle gadael i'r awdurdod lleol ymdrin â manylion y cynllun gofal. Mae hyn yn arwain at **ddyblygu ac oedi.** Mae'r Adolygiad hefyd yn dweud bod awdurdodau lleol yn aml yn **aros yn rhy hir cyn dechrau achosion gofal** gan nad ydynt yn **sylweddoli cymaint yw effaith** esgeulustod a cham-drin emosiynol hirdymor ar blant.

Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod y **twf yn y defnydd o dystion arbenigol** yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu at **ragor o oedi** yn y llysoedd ac at **ragor o gostau**. Mae'r Adolygiad yn pryderu am **forâl isel** ymhlith rhai pobl broffesiynol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder teuluol. Nid yw statws isel rhai gweithwyr yn cyfateb i'w sgiliau a'u hymroddiad, yn enwedig **gweithwyr cymdeithasol**.

Mae'r Adolygiad yn tanlinellu'r **angen i'r system ganolbwyntio'n llwyr ar y plentyn** a phwysigrwydd **clywed llais y plentyn** yn yr holl achosion sy'n effeithio arnynt.

Mae'r Adolygiad yn gwneud argymhellion **ar gyfer meysydd sydd wedi'u datganoli (lles cymdeithasol)** a **materion sydd heb eu datganoli (achosion a'r gyfraith deuluol).** Nid yw'r ffin rhwng y ddau bob amser yn glir ond daw'n gliriach gydag amser.

Mae'r argymhellion a ganlyn wedi'u **derbyn** yn ymateb Llywodraeth y DU ac mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu ei bod wedi ymrwymo i 'weithredu'r agweddau hynny ar yr ymateb sydd wedi'u datganoli i Gymru'.

## Meysydd sydd wedi'u datganoli

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am **adrannau gwasanaethau cymdeithasol, lles plant** a **gwasanaethau diogelu plant** awdurdodau lleol. Mae hefyd yn gyfrifol am Wasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (**CAFCASS Cymru**).

Mae'r Adolygiad yn argymell y dylai **canllawiau'r llywodraeth** ar weithdrefnau diogelu plant bwysleisio pwysigrwydd **defnyddio'r llysoedd yn briodol wrth gynllunio ar gyfer plant** ac y dylent hefyd bwysleisio **pwysigrwydd amserlenni'r plentyn** wrth geisio lleihau oedi.

Mae'n argymell **lleihau cyfrifoldeb paneli mabwysiadu awdurdodau lleol** fel nad oes raid iddynt ystyried cynlluniau mabwysiadu i blant unigol. Mae'r adolygiad yn dweud **y dylai fod yn ddigonol i'r llys graffu ar gynlluniau mabwysiadu** ac y bydd hynny'n **lleihau oedi**.

Mae'r adolygiad hefyd yn gwneud argymhelliad ar gyfer **datblygiad proffesiynol gweithwyr cymdeithasol.** Dylid rhoi mwy o bwyslais ar **ddatblygiad plant** a **hyfforddiant i wella cynnwys yr asesiadau** sy'n bodloni gofynion y llysoedd wrth wneud penderfyniadau am blant.

## Meysydd heb eu datganoli

Mae'r adolygiad yn awgrymu y dylai **deddfwriaeth newydd** osod **terfyn amser** ar achosion llys – sef **dim mwy na chwe mis** i bob achos heblaw'r rhai mwyaf cymhleth ac anodd. Mae hefyd yn argymell **newid y gofynion adnewyddu yn achos gorchmynion gofal dros dro** rhag i bobl orfod dychwelyd i'r llys pan fydd achosion gofal yn parhau [5].

Byddai barnwyd yn gyfrifol am **amserlenni a rheoli achosion**, yn unol â'r ddeddfwriaeth arfaethedig i bennu terfynau amser ar gyfer achosion gofal.

Mae'r Adolygiad yn argymell **na** ddylai'r llysoedd, yn y dyfodol, graffu ar fanylion y **cynllun gofal** a baratowyd gan yr awdurdod lleol. Dim ond ar **y materion hanfodol** y dylai graffu, sef ble y dylai'r plentyn fyw ar ddiwedd yr achos gofal a faint o gysylltiad ddylai ei gael ag aelodau'r teulu os nad yw'n dychwelyd adref.

Mae nifer o argymhellion am **wella hyfforddiant i farnwyr** a sicrhau **parhad barnwrol** mewn achosion plant. Mae'r Adolygiad hefyd yn argymell creu **un llys teuluol** yn lle'r llys tair haen presennol.

## Argymhellion ar gyfer gweithio gyda'n gilydd

Mae'r argymhellion a ganlyn yn cyfuno meysydd lle mae gweithwyr proffesiynol mewn cyrff datganoledig fel **CAFCASS Cymru ac awdurdodau lleol Cymru** yn cydweithio gyda gweithwyr proffesiynol yn y system gyfiawnder heb ei datganoli.

Mae'r Adolygiad yn dweud y dylai barnwyr ac awdurdodau lleol **weithio gyda'i gilydd i osod safonau** fel bo adroddiadau awdurdodau lleol yn bodloni gofynion y llys. Dylai hyn hefyd **leihau'r ddibyniaeth bresennol ar dystion arbenigol** i ategu tystiolaeth.

Mae'r Adolygiad hefyd yn argymell system o **ddatblygiad proffesiynol parhaus** i farnwyr ac ynadon, gan ddechrau drwy gyflwyno cynllun peilot i ddysgu barnwyr ac ynadon am **y canlyniadau i'r plant a'r teuluoedd** y maent wedi bod yn ymdrin â nhw. Mae hefyd yn awgrymu y dylid trefnu **cwrs cynefino, sy'n ymdrin â'r gwahanol ddisgyblaethau,** i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder teuluol Mae'r Adolygiad hefyd yn argymell **cryfhau'r cysylltiadau** rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol[6] (IROs), gwarcheidwaid plant (a gyflogir gan CAFCASS Cymru) a'r farnwriaeth.

Mae'r Adolygiad yn argymell sefydlu **Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol** newydd i ddwyn ynghyd y gwahanol wasanaethau sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder teuluol. Yn y cyfamser, bydd **Bwrdd Cyfiawnder Teuluol** yn cael ei sefydlu a fydd yn cynnwys **cynrychiolaeth allweddol o Gymru.**

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad ac mae'n cyfeirio at **fentrau polisi allweddol** yng Nghymru sy'n cyd-fynd â'r argymhellion. Mae'n tynnu sylw at y fframwaith a gyflwynwyd yn ei dogfen bolisi, ***Gwasanaethau Cymdeithasol***

[5] Mae achosion gofal wedi'u cynnwys o dan Rhan IV o Ddeddf Plant 1989 sy'n cael ei ddiffinio fel "achos teuluol".
[6] Caiff Swyddogion Adolygu Annibynnol eu cyflogi gan awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn adolygiadau statudol o blant sy'n derbyn gofal, i oruchwylio'r broses cynllunio gofal ac i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed. Rhaid i'r awdurdod lleol ymateb i unrhyw argymhellion gan y Swyddogion.

***Cynaliadwy i Gymru*** sy'n adleisio'r negeseuon a geir yn yr Adolygiad am **atebolrwydd a darparu gwasanaethau** i hybu lles plant a phobl ifanc ac am **wella sgiliau proffesiynol a hyder gweithwyr proffesiynol** wrth iddynt reoli achosion cymhleth.

Mae sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed drwy gydol prosesau'r llys yn ganolog i'r **agenda hawliau plant** yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu **Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru** a fydd yn sail i waith y **Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Interim** a'i gynrychiolwyr o Gymru. Bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf ym mis **Ebrill 2012**.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol**[7] ym mis Hydref 2012 i geisio lleihau'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys **lleihau rheoliadau a biwrocratiaeth** fel y gall cyrff ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau.

## Beirniadaeth ar yr Adolygiad

Roedd nifer o ymatebion i'r Adolygiad yn amau **nad oedd digon o adnoddau ychwanegol** ar gael i sicrhau bod modd cadw at y **terfyn amser statudol ar gyfer achosion gofal** mewn system a oedd eisoes dan bwysau[8][9][10]. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn pryderu am ddatblygiadau eraill a allai effeithio ar y gallu i weithredu'n newidiadau, gan dynnu sylw at y ffaith bod **cyfleusterau'r llysoedd yn cael eu cau** a bod **cymorth cyfreithiol yn cael ei dorri**.

Roedd un corff sy'n cynrychioli cyfreithwyr yn pryderu am **roi terfyn ar y gwaith o graffu'n fanwl ar gynlluniau gofal yn y llysoedd**[11]. Roedd y gymdeithas broffesiynol sy'n cynrychioli gwarcheidwaid plant a gweithwyr cymdeithasol annibynnol o'r un farn ac roeddent hefyd yn pryderu am **effaith amserlenni caeth ar blant** a **phwysau llwyth gwaith ar warcheidwaid plant**[12].

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, cysylltwch â **Lynette Hayward** (**Lynette.Hayward@Wales.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Hefyd:**

Hysbysiad hwylus: **Achosion Cyfraith Breifat a'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol**

**Rhif ymholiad: 12/0202 Enw: Lynette Hayward**
**Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.**

[7] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad, ***Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*** [fel ar 15 Mawrth 2012]
[8] Wythnos Cyfraith Deuluol , ***Norgrove – The Response Considered*** [fel ar 29 Chwefror 2012]
[9] Cymdeithas Cyfreithwyr Teuluol i Blant, ***Government's Response to the Family Justice Review – press release*** , 7 Chwefror 2012 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[10] Cymdeithas y Cyfreithwyr, ***Law Society welcomes Government commitment to speed up care proceedings***, 6 Chwefror 2012 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[11] Cymdeithas Cyfreithwyr Teuluol i Blant, ***Government's response to Family Justice Review - press release***, 7 Chwefror 2012 [fel ar 1 Mawrth 2012]
[12] NAGALRO, ***Government response weakens court safeguards for children***, 10 Chwefror 2012 [fel ar 1 Mawrth 2012]